Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy – Yn dechrau 1 Ionawr 2026






**Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi'i gynllunio i'ch cefnogi i gynhyrchu bwyd o ansawdd uchel yn gynaliadwy, eich helpu i wella cynhyrchiant, ac addasu i effeithiau newid hinsawdd. Rydym wedi cadw'r Haenau Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol fel y ffordd orau o wneud hyn.**

**Byddwch yn cael Taliad Cyffredinol blynyddol am gwblhau cyfres o Weithredoedd Cyffredinol:**

**UA1 Iechyd Pridd:** Profi pridd dros gyfnod o bum mlynedd i helpu i lywio eich penderfyniadau cynllunio iechyd pridd er budd eich cnydau a'ch tir pori.

**UA2 Rheolaeth Integredig ar Blâu:** Cwblhau asesiad blynyddol o Gynhyrchion Diogelu Planhigion a ddefnyddir, a dulliau amgen i leihau'r defnydd o gemegau – a all arbed arian a lleihau gwastraff.*

**UA3 Meincnodi:** Cwblhau asesiad mesur a monitro blynyddol i'ch helpu i nodi arbedion neu welliannau.

**UA4 Datblygiad Proffesiynol Parhaus:** Datblygu eich sgiliau a'ch gwybodaeth bresennol trwy ddysgu ar ystod o bynciau, gan gynnwys gwella iechyd a diogelwch ar ffermydd.

**UA5 Cynnal cynefinoedd:** Cynnal y cynefinoedd lled-naturiol neu'r cynefinoedd sydd newydd eu creu ar eich fferm fel eu bod o fudd i fywyd gwyllt a da byw sy'n pori.

**UA6 Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella:** Creu cynefin dros dro ychwanegol i fodloni Gofyniad y Cynllun bod 10% o bob fferm yn gynefin.*

**UA7 Cynllun Rheoli Safleoedd Dynodedig:** Gwella'r gwaith o reoli Safleoedd Dynodedig (ee. SoDdGA), drwy gytuno ar Gynllun Rheoli gyda CNC, ac yna cael cyllid Opsiynol pellach.*

**UA8 Rheoli perthi/gwrychoedd:** Rheoli perthi/gwrychoedd mwy trwchus a mwy o faint er mwyn darparu cysgod i'ch da byw, cnydau a bywyd gwyllt.*

**UA9 Cynnal coetiroedd:** Cynnal coetiroedd sydd eisoes yn bodoli er mwyn cynyddu'r manteision i dda byw a natur ac ar gyfer arallgyfeirio busnesau.*

**UA10 Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd:** Cwblhau cynllun cyfle ar gyfer coed a pherthi/gwrychoedd ychwanegol i nodi lle gallant fod o fudd i'ch fferm. Rydym yn gofyn i chi blannu o leiaf 0.1 ha o goed erbyn diwedd blwyddyn y cynllun yn 2028 (neu fod â threfniadau ar waith erbyn hynny i blannu erbyn diwedd mis Mawrth 2029), gyda chyllid ar gael yn yr Haen Opsiynol.

**UA11 Yr Amgylchedd hanesyddol:** Diogelu a chyfoethogi ein nodweddion treftadaeth pwysig er mwyn gwarchod ein cymeriad diwylliannol neilltuol.*

**UA12 Iechyd a Lles Anifeiliaid:** Gweithio gyda'ch milfeddyg i gefnogi gwelliant parhaus yn iechyd a lles eich da byw.*

*** Os nad yw'r gweithredoedd hyn yn berthnasol i'ch fferm, mewn unrhyw flwyddyn benodol, nid oes rhaid i chi eu cwblhau. Ni fydd hyn yn effeithio ar eich Taliad Cyffredinol.**

**Bydd y Taliad Cyffredinol yn cynnwys:**

- Y **Taliad Sylfaenol** sy'n adlewyrchu'r costau a ysgwyddir a'r incwm a gollir wrth gynnal y Gweithredoedd Cyffredinol ar draws y Fferm Gyfan (pob tir cymwys), a thaliadau ar gyfer ardaloedd o gynefin a choetiroedd.
- **Taliad Gwerth Cymdeithasol** – un gyfradd dalu fesul hectar (pob tir cymwys) i gydnabod y manteision uniongyrchol ac anuniongyrchol y mae ffermio cynaliadwy yn eu darparu i gymdeithas.
- **Taliad Sefydlogrwydd** untro o £1,000 – ar gael yn 2026 i ffermydd hyd at 100ha.
- Bydd cap ar daliadau SFS uwch eu gwerth.

**'Tir cymwys'** yw cyfanswm y fferm – gan gynnwys ardaloedd fel coed, prysgwydd, sgri a rhedyn. Nid yw ardaloedd fel pyllau (dros 1 ha), afonydd, arwynebau caled, adeiladau a iardiau yn gymwys.

Gweler ein **'Canllaw Cyflym'** er mwyn cael syniad o'ch Taliad Cyffredinol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Gall rhai taliadau gael eu capio.

## Tir comin

Bydd y Taliad Cyffredinol yn cynnwys taliadau am dir comin os oes gennych hawl gyfreithiol i'w ddefnyddio (bydd yn cael ei ddosrannu mewn ffordd debyg i BPS). Bydd taliadau Cynllun Cynefin Cymru (Tir Comin) yn parhau yn 2026, ac mae taliadau cydweithredol ar gyfer rheoli yn well ar gael, er enghraifft drwy'r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig (INRS).

## Gweinyddu'r cynllun

Byddwch yn datgan manylion eich tir ar y SAF yn flynyddol erbyn 15 Mai. Bydd dangosfwrdd RPW Ar-lein ar gael ac yn dangos cynnydd yn erbyn y Gweithredoedd Cyffredinol sy'n berthnasol i'ch fferm. Bydd Taliadau Cyffredinol yn dechrau ym mis Hydref ac yna bydd taliad olaf yn dilyn, o fis Rhagfyr ymlaen.

Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod RPW Ar-lein mor hawdd a syml â phosibl. Mae hyn yn cynnwys datblygu 'cydnabyddiaeth ar sail perfformiad' i osgoi dyblygu lle rydych efallai eisoes yn cyflawni gweithredoedd cyfatebol trwy gontractau masnachol neu gynlluniau sicrwydd fferm.

## Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol

Mae'r opsiynau ar gael i chi ddewis ohonynt yn cynnwys; gwell cynhyrchiant, gwell bioddiogelwch, rheoli cynefinoedd mwy penodol a phlannu coed. Mae taliadau'n cynnwys taliadau cyfalaf untro, neu daliadau aml-flwyddyn sy'n seiliedig ar ardal.

## Sut i baratoi

Cwblhewch ymarfer Cadarnhau Data'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy 2025 i wirio manylion eich cynefin a'ch gorchudd coed.

Edrychwch pa gynlluniau paratoi allai fod yn addas i chi gan gynnwys Tyfu er mwyn yr Amgylchedd, Troi'n Organig, neu Grantiau Creu Coetiroedd.

Siaradwch â Cyswllt Ffermio am y cymorth sydd eisoes ar gael a sut i gwblhau cyrsiau hyfforddi eleni i gyfrif tuag at Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus UA4 ar gyfer 2026.

Am ragor o wybodaeth am y Cynllun, gan gynnwys Canllaw Cyflym y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ewch i **llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-canllaw**






OGL © Hawlfraint y Goron 2025, WG52429